Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Tŷ Enfys**

**Tŷ Enfys**
**Marle Close**
**Caerdydd**
**CF23 7EP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Tŷ Enfys

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal a Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Hallmark Care Homes (Pentwyn) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 101 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23/12/2019 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn ac ni wnaethom ystyried y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar yr achlysur hwn |

## Crynodeb

Mae'r cartref yn groesawgar, ac mae'r staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael gofal da gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Mae'r staff gofal yn rhoi lefelau da o ofal a chymorth i'r bobl ac yn diweddaru eu cynlluniau personol yn rheolaidd. Mae tîm ymroddedig o staff yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol a hamdden i'r bobl. Mae'r staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn teimlo'n hyderus yn mynegi pryderon i'r rheolwyr. Mae trefniadau cyfathrebu da rhwng y bobl, eu teuluoedd a'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion pwysig. Mae systemau sicrhau ansawdd cadarn ar waith, sy'n gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn mynd i'r afael â materion ac yn myfyrio arnynt. Mae'r cartref wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith i gadw pobl yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch ac maent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt. Gwelsom y bobl a'r staff gofal yn cael sgyrsiau ystyrlon a chawsom adborth ardderchog gan y bobl sy'n byw yn y cartref ar eu gofal. Dywedodd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth wrthym eu bod yn teimlo y gallant fynd at y staff gofal a'r rheolwyr, a siarad â nhw'n agored. Dywedodd y bobl wrthym am eu hoff bethau a'u dymuniadau a'r ffordd y mae'r staff gofal yn eu cefnogi i gael y rhain. Cynhelir adolygiadau rheolaidd sy'n cynnwys yr unigolyn a/neu ei deulu. Dywedodd y mwyafrif o'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion pwysig yn rheolaidd. Gall y bobl a'u teuluoedd hefyd roi adborth yn uniongyrchol i'r unigolyn cyfrifol ar faterion sydd o bwys iddynt. Gwelsom dystiolaeth o hyn yng nghofnodion sicrhau ansawdd y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r bobl os ydynt yn dymuno cymryd rhan. Dywedodd y bobl wrthym am y pethau y maent yn eu mwynhau a'r ffordd y mae'r staff gofal yn deall eu dymuniadau a'u hanghenion. Caiff adolygiadau iechyd rheolaidd eu cynnal a'u rhannu â'r asiantaethau priodol. Caiff y bobl eu cefnogi i geisio'r cymorth proffesiynol cywir, megis apwyntiad meddyg, os oes angen. Mae'r staff gofal yn cael gwybodaeth newydd am y person mewn modd amserol er mwyn sicrhau y gallant ddarparu'r gofal a'r cymorth priodol.
Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r bobl a'r gweithwyr gofal yn teimlo'n hyderus yn mynegi pryderon i'r rheolwr. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol, ac mae'r staff gofal yn gyfarwydd â'r rhain. Mae'r staff gofal yn cael lefelau da o hyfforddiant ac mae'r mwyafrif ohonynt yn gymwys wrth ymdrin â phryderon. Mae systemau sicrhau ansawdd cadarn ar waith er mwyn goruchwylio materion yn ymwneud â diogelwch a llesiant y bobl.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas sy'n cefnogi eu llesiant. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd wrthym y gallant addurno a phersonoli eu hystafelloedd os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae gwaith adnewyddu'n mynd rhagddo yn y cartref er mwyn diweddaru rhai ardaloedd. Roedd y cartref yn ymddangos yn lân ac yn groesawgar. Mae cyfarpar priodol a diogel ar gael i'r bobl ei ddefnyddio yn ôl yr angen, megis cyfarpar codi, ac mae mesurau iechyd a diogelwch da ar waith.

## Gofal a Chymorth

Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, wedi'u teilwra i'r unigolyn ac yn darparu gwybodaeth glir a chyfredol fel y gall y staff gofal ddeall anghenion person. Mae'r staff yn adolygu gofal pob unigolyn yn rheolaidd a dywedodd y bobl a'u teuluoedd wrthym eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses hon. Dywedodd y mwyafrif o'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw bod y gwasanaeth yn dda iawn am gyfathrebu â nhw ynghylch materion megis iechyd. Mae gan y bobl fynediad da at wasanaethau iechyd a chaiff unrhyw newidiadau i'w hiechyd eu hadolygu. Gwelsom sawl cofnod a ddangosodd fod pobl wedi gweld eu meddyg mewn modd amserol ac yn rheolaidd pan oeddent yn wael. Mae systemau da ar waith i gofnodi a dadansoddi materion sy'n ymwneud ag iechyd ac mae'r dogfennau hyn yn helpu'r rheolwyr i nodi tueddiadau. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth bwysig â'i gilydd ynghylch newidiadau i gyflwr person mewn cyfarfodydd staff ac yn ystod cyfnodau trosglwyddo sifftiau. Gwelsom gofnodion i ddangos bod perthnasau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu hanwyliaid yn rheolaidd.

Dywedodd y bobl wrthym fod y staff gofal yn eu hadnabod yn dda a'u bod yn deall sut i'w cefnogi. Gwelsom weithgareddau'n cael eu cynnal ar ddiwrnod yr arolygiad a dywedodd y bobl wrthym fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael iddynt os ydynt yn dymuno cymryd rhan. Dywedodd un person wrthym ei fod yn mwynhau mynd i'r ‘Clwb Llyfrau’ lle gall eistedd a sgwrsio â phobl eraill sy'n byw yn y cartref. Gwelsom bobl yn paentio yn yr ardd, ac roedd pobl eraill yn mwynhau gêm blwch atgofion. Roedd cerddoriaeth ymlaciol yn cael ei chwarae mewn gwahanol rannau o'r cartref, ac roedd y bobl i weld yn ei mwynhau. Yn ôl y bobl, mae'r tîm gweithgareddau penodol yn “*brilliant*” (gwych). Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o ddiddordebau'r bobl ac maent yn eu cefnogi gyda'u dewisiadau a'u hoffterau.

Mae'r rheolwyr a'r staff yn hybu hylendid ac arferion rheoli heintiau da yn y cartref. Maent yn cynnal llesiant y bobl drwy leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Gwelsom fod ystafell ymweld benodol lle gallai'r bobl ddechrau gweld eu hanwyliaid unwaith eto. Dywedodd y bobl wrthym pa mor anodd oedd pethau yn ystod pandemig COVID-19, ond bod y staff gofal wedi bod fel teulu iddynt. Mae'r staff yn cynnal y profion COVID-19 a argymhellir ar gyfer pob ymwelydd ac yn sicrhau bod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael. Mae'r staff yn annog ac yn cefnogi teuluoedd a ffrindiau'r bobl i gadw mewn cysylltiad. Mae'r gwasanaeth wedi darparu iPads drwy'r pandemig er mwyn hwyluso sgyrsiau dros FaceTime; gwelsom bobl yn defnyddio'r rhain yn ystod yr arolygiad.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Mae mynedfa ac allanfeydd y cartref yn ddiogel. Gwelsom system ‘dim cyffwrdd’ i'r staff ac ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael y cartref.
Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn gwybod sut i ymdrin ag unrhyw gwynion y mae'r cartref yn eu cael ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r cartref. Mae'r bobl yn teimlo'n hyderus yn rhoi gwybod i'r staff gofal a'r tîm rheoli am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae gan y gwasanaeth broses recriwtio drylwyr, sy'n bodloni gofynion rheoliadol. Mae gweithdrefnau a pholisïau diogelu ar waith sy'n adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol. Mae'r

cynlluniau personol yn cynnwys asesiadau risg manwl mewn perthynas ag iechyd a diogelwch y bobl. Mae hyfforddiant diogelu'r holl staff yn gyfredol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ymddangos yn lân, yn gartrefol ac yn groesawgar. Mae'r holl adborth a gafwyd yn awgrymu bod y bobl yn hapus yn eu cartref a gallant bersonoli ac addurno eu hystafelloedd os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gwelsom fod gwaith adnewyddu'n mynd rhagddo i ddiweddaru rhai ardaloedd yn y cartref. Mae cyfarpar iechyd a diogelwch, megis diffoddwyr tân, wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar ac mae'r darparwr yn trefnu archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd. Dywedodd un perthynas wrthym fod y cartref "*always very clean, fresh smelling and welcoming"* (bob amser yn lân iawn, yn arogli'n ffres ac yn groesawgar).

Mae safonau hylendid a rheoli heintiau da. Bydd tymheredd y staff ac ymwelwyr yn cael ei brofi cyn iddynt fynd i mewn i'r cartref. Caiff y broses hon ei chwblhau ar y system 'dim cyffwrdd'. Mae cyfarpar diogelu personol a gorsafoedd diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r cartref a gwelsom fod y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol pan gynhaliwyd yr arolygiad. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod wedi cael hyfforddiant da a chyfarpar diogelu personol drwy bandemig COVID-19. Mae polisi COVID-19 cadarn ar waith. Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddiweddaru sawl gwaith er mwyn rhoi digon o wybodaeth i'r gweithwyr gofal gan eu galluogi i ddeall eu dyletswyddau. Gwelsom y staff gofal yn cydymffurfio â pholisïau priodol yn ystod yr arolygiad ac yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn gymwys.

## Arwain a Rheoli

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Ers pandemig COVID-19, mae'r ymweliadau hyn wedi cael eu cynnal drwy ddulliau rhithwir. Gall y bobl, y staff gofal a pherthnasau roi adborth i'r unigolyn cyfrifol a rhannu eu barn a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn cofnodion sicrhau ansawdd. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwyr yn cwblhau

adroddiadau ansawdd rheolaidd er mwyn goruchwylio materion megis lefelau staffio, cwynion, diogelu, damweiniau a hyfforddiant. Caiff meysydd i'w datblygu eu hamlygu a chymerir camau gweithredu priodol. Mae'r adolygiad o Ansawdd y Gofal yn tynnu sylw at feysydd y mae angen eu datblygu a sut i wella'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir.

Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth. Gwelsom bolisïau manwl yn ymwneud â diogelu, chwythu'r chwiban a rheoli heintiau. Mae'r staff gofal yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch polisïau a gweithdrefnau. Dywedodd un perthynas wrthym ei fod yn cael cylchlythyr wythnosol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am newidiadau yn y gwasanaeth a'r polisïau a'r gweithdrefnau.

Gwelsom gydberthnasau ystyrlon rhwng y bobl a'r staff gofal. Roedd y staff gofal yn siarad â'r bobl mewn modd cynnes, gan ddangos urddas a pharch tuag atynt. Mae lefelau staffio cyson a phriodol ar waith i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff "*are excellent here"* (yn ardderchog yma) ac mai nhw "*are the first to be with me if I'm ill in bed*" (yw'r cyntaf i fod gyda mi pan fydda i'n sâl yn y gwely). Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo bod y staff wedi'u hyfforddi'n dda a'u bod yn gwybod sut i'w cefnogi. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn teimlo bod y staff gofal yn eu hadnabod yn dda, gyda llawer ohonynt wedi gweithio yn y gwasanaeth am gryn dipyn o amser. Dywedodd un person wrthym*"I get wonderful attention, the people who look after me are most kind*" (Rwy'n cael sylw arbennig, mae'r bobl sy'n gofalu amdanaf yn hynod garedig). Dywedodd y gweithwyr gofal a'r nyrsys wrthym eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym fod y gwaith tîm yn *"fantastic"* (ardderchog).

Mae ffeiliau'r staff yn fanwl ac mae gwiriadau recriwtio priodol ar waith. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd a gallant ddefnyddio'r sesiynau hyn i rannu eu pryderon a/neu eu hanghenion datblygu. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod cyfarfodydd rheolaidd yn eu galluogi i rannu materion a thrafod unrhyw anghenion sydd gan y gwasanaeth yn agored â'r rheolwyr. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym fod "*things are managed effectively and professionally*" (pethau'n cael eu rheoli'n effeithiol ac yn broffesiynol). Mae'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant penodol ar sepsis yn ddiweddar. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym ei fod yn teimlo bod y gwasanaeth yn ei werthfawrogi, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd ers pandemig COVID-19.

| **Meysydd y nodwyd bod angen gweithredu ar unwaith arnynt a'u gwella yn yr arolygiad blaenorol. Wedi’i gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd y nodwyd bod angen gweithredu ar unwaith arnynt a'u gwella yn yr arolygiad blaenorol. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle mae angen gweithredu ar unwaith** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd y mae angen eu gwella** | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/07/2021